



CYNHADLEDD GWIR FWYD A FFERMIO CYMRU 2022

23-25 Tachwedd

Campws Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant,
Llambed

<https://wrffc.wales/>

gwybodaeth@cgfffc.cymru

Trydar: @wrffc22 #CGFFFC22

DIOLCH I'N NODDWYR



A'N CEFNOGWYR



CYNIDR CONSULTING

Dydd Mercher 23^{ain}

AMSER	Neuadd y Celfyddydau	Hen Neuadd	Theatr Cliff Tucker
10.00-11.00	1. Croeso gan Gwilym Dyfri Jones, Prifysgol Cymru Y Drindod Siaradwraig gwadd: Sheila Dillon , BBC Radio 4 <i>Cadeirydd: Alicia Miller, Sustainable Food Trust</i>		
COFFI			
11.30-12.30	2*. Hinsawdd o newid: gosod y trywydd tuag at Anthroposin llewyrchus <i>Cadeirydd: Dave Bavin, Cynefin</i> Gyda: Dr Sophie Wynne Jones, Prifysgol Bangor; Siân Stacey, Tir Canol; Oliver Kynaston, EcoTree International; Dafydd Morris-Jones, Fferm Tŷ Mawr	3*. Pŵer coed <i>Cadeirydd: Nigel Pugh, Coed Cadw</i> Gyda: Dr Ashley Hardaker, Prifysgol Bangor; Geraint Davies, ffermwr a Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru; Jerry Langford, Coed Cadw; Dr Glenda Thomas, FWAG Cymru	4. Arweinyddiaeth bwyd yn y sector cyhoeddus a'r gymuned <i>Cadeirydd: Fiona Taylor, Garddio Organig</i> Gyda: Jade Phillips, Garddio Organig; Pearl Costello, Bwyd Caerdydd; Louise Denham, Bwyd y Fro
12.30-13.45: Cinio a sesiynau byr	5. Cysylltu bwyd a rheilffyrdd - cymunedau a thwristiaeth Gyda: Rhiannon-Jane Raftery, Rhwydwaith Rheilffyrdd Cymunedol Cymru a'r Gororau	6. Beth yw'r sgôr ar dir comin? Gyda: Helen Barnes, Cynghorydd amaethyddol annibynnol	7. Tuag at economi gylchol o gompost Gyda: Fin Jordao, Canolfan y Dechnoleg Amgen
13.45-14.45	8. Bwydo Cymru o'r tir i fyny <i>Cadeirydd: Sheila Dillon, BBC</i> Gyda: Huw Richards, Regenerative Media; Patrick Holden, Sustainable Food Trust; Rachael Madeley Davies, Hybu Cig Cymru; Jyoti Banerjee, North Star Transition	9*. Bwyd cymunedol: iechyd, cydraddoldeb a dathlu mewn cyfnodau anodd <i>Cadeirydd: Jo da Silva, Open Food Network</i> Gyda: Andrea Sanders, Yr Ardd; Chris Cashin a Christine Joy, Prifysgol Cymru Y Drindod; Gwenllian Spink, Open Food Network; Lowri Jenkins, Cymunedau'r Eden Project	10. Adeiladu system hadau cynaliadwy ar gyfer ffermwyr a thyfwrwr Cymru <i>Cadeirydd: Kate McEvoy, Real Seeds Cyf.</i> Gyda: Steven Jacobs, Organic Farmers & Growers CIC; Nathan Richards, Fferm Troed y Rhiw; Leasa Fielding, Llywodraeth Cymru
Hoe fer			
15.00-16.00	11. Rhannu'r tir a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy <i>Cadeirydd: Nigel Pugh, Coed Cadw</i> Gyda: Shea Buckland-Jones, WWF-UK; Hannah Woodall, RSPB Cymru; Rachel Lewis Davies, NFU Cymru; Duncan Fisher, Ein Bwyd 1200	12. Mapio tir ar gyfer bwyd cymunedol: gweithdy ymarferol <i>Cadeirydd: Alison Sheffield, Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yng Nghymru</i> Gyda: Chris Higgins, Tyfu Dyfi; Kim Graham, Shared Assets; Lynne Davis, Digital Commons; Gary Mitchell, Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yng Nghymru	13. GMOs newydd: risg, cyfle neu dyniad sylw? <i>Cadeirydd: Kate McEvoy, Real Seeds Cyf.</i> Gyda: Steven Jacobs, Organic Farmers & Growers CIC; Liz O'Neill, GM Freeze; Gerald Miles, Fferm Organig Caerhys
Te			
16.30-17.30	14*. Mae natur yn golygu busnes: sut y gall ffermio er lles natur cynyddu proffidioldeb ffermydd a gwella'r amgylchfyd <i>Cadeirydd: Rhys Evans, Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur (NFFN) Cymru</i> Gyda: Hywel Morgan a Sam Kenyon, NFFN Cymru; Huw Foulkes, Fferm Pentrefelin	15. Dim amser i'w gollu: ymgysylltu â'r llywodraeth – gweithdy rhyngweithiol Gyda: Camilla Saunders, Karen Plant, Caroline Eayrs ac Angie Zelter, Bwyd Cynaliadwy Tref-y-Clawdd	16. Diwylliant bwyd Cymreig yfory Gyda: Carwyn Graves, awdur, a Patrick Holden, Sustainable Food Trust
17.45-18.45 NEU 18.00-19.00	18*. Lansio ffilm fer RSPB Cymru 'Ffermio gyda natur' (18.00) Archebwch tocynnau	17. Ffermio ac adrodd straeon ar gyfer dyfodol dynoliaeth (17.45) Gyda: Matt Swarbrick, Fferm Henbant, a Huw Richards, Regenerative Media	
19.00	Neuadd bwyta: 19. Swper ac adloniant gan Cynefin, Camilla Saunders a Sam Robinson		

* Sesiwn yn rhannol neu'n gyfan gwbl yn Gymraeg

Dydd Iau 24^{ain}

AMSER	Neuadd y Celfyddydau	Hen Neuadd	Theatr Cliff Tucker	Neuadd Bwyta
10.00-11.00	20*. Alun Elidyr , cyflwynydd a ffermwr, gyda Jon Gower , darlledwr ac awdur			
Coffi				
11.30-12.30	21*. Prydau ysgol fel gyriant adfywio <i>Cadeirydd: Alex Cook, Bwyd Sir Gâr</i> Gyda: Alison Sheffield, Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yng Nghymru; Edward Morgan, Castell Howell; Cyng. Ann Davies, Cyngor Sir Gâr	22*. Meddylfryd systemau mewn addysg a'r llywodraeth <i>Cadeirydd: Richard Dunne, Yr Athrofa Cytgord</i> Gyda: Heini Thomas, Ysgol y Dderi; Julia Lim, Hwb Ymaddasu Llambled; Sarah Hetherington, Cyfoeth Naturiol Cymru	23. Graen gwych: Hen Gymro - y gwenith Cymreig <i>Cadeirydd: Steven Jacobs, Organic Farmers & Growers CIC</i> Gyda: Anne Parry, Felin Ganol; Andrew Neagle, Anuna Craft Bakery; Rob Penn, awdur, pobydd; Emma Williams, Y Felin; Hefin Evans, ffermwr	24. Gweithdy prosesu hadau Gyda: Sue Stickland, Hwb Hadau Cymru, a Kate McEvoy, Real Seeds Cyf.
12.30-13.45: Cinio a sesiynau byr	25. Homeopathi ar y fferm Gyda: Peter Gregory a Jane Spruell, milfeddygon homeopathi	26. Peiriannau gwerthu bwyd ffres fel dull o ddsbarthu Gyda: Abi Marriott a Rich Miles Tuck, PLANED	27. Dull paramaethu at ddyfodol cynhyrchu bwyd Cymreig Gyda: Peter Stopp, Paramaethu Cymru	
13.45-14.45	28*. Pŵer partneriaethau bwyd lleol <i>Cadeirydd: Jessie Buchanan, Gyda'n Gilydd dros Newid</i> Gyda: Andy Rowland, Biosffer Dyfi; Augusta Lewis, Bwyd Sir Gâr; Simon Wright, Canolfan Tir Glas	29. Rôl da byw wedi'i reoli'n dda mewn ecosystemau iach <i>Cadeirydd: Karen Fisher, Innovative Farmers</i> Gyda: Kate Bradshaw, ffarmwraig a Pasture for Life; Christopher Price, Rare Breeds Survival Trust; Andrew Rees, ffermwr	30. Pam mae CSA yn gweithio dros bobl, planed a chynhyrchwyr <i>Cadeirydd: Neil Hickson, Rhwydwaith CSA UK</i> Gyda: Tom O'Kane, Cae Tân CSA; Gerald Miles, COCA CSA; Abbi Mason, Big Meadow CSA; Ruth Evans, Big Meadow CSA a Chae Felin CSA	31. Profi dwysedd maeth bwyd Gyda: Matthew Adams ac Elizabeth Westaway, Grffn CIC
Hoe fer				
15.00-16.00	32*. Gwrthddywediad ac argyfwng yn y system fwyd <i>Cadeirydd: Dr Angelina Sanderson Bellamy, Prifysgol Gorllewin Lloegr</i> Gyda: Katie Palmer, Synnwyr Bwyd Cymru; Rhys Evans, NFFN Cymru; Jess McQuade, WWF-Cymru	33*. Iechyd pridd i ffermwyr: carbon a thu hwnt <i>Cadeirydd: Annie Buckle, Prifysgol Caerloyw</i> Gyda: Dr Non Williams, Cyswllt Ffermio; Dr Felicity Crotty, Prifysgol Amaethyddol Frenhinol; Hal Drysdale, ffermwr a grŵp Wye Soil	34. Oes dyfodol i fwyta allan? <i>Cadeirydd, Simon Wright, Wright's a Chanolfan Tir Glas</i> Gyda: Cerys Furlong, perchennog bwyta; Dan Warder, Top Joe's Pizzerias; Deri Reed, The Warren a Chegin Hedyn	
Te				
16.30-17.30	35. Dathlu manteision mynediad tir ehangach <i>Cadeirydd: Gary Mitchell, Ffermydd a Gerddi</i> Cymdeithasol yng Nghymru; Gyda: Mark Walton, Shared Assets; Duncan Fisher, Ein Bwyd 1200; Lucie Taylor, Gwasanaeth Cyngori ar Dir Cymunedol; Chris Blake, The Green Valleys	36. Sut mae asesiadau cynaliadwyedd yn helpu ffermwyr, cynghorwyr a'r llywodraeth Gyda: Sophie Wynne-Jones, Prifysgol Bangor; Richard Kipling a May Wheeler, Sustainable Food Trust; Bridie Whittle, Wye & Usk Foundation		
17.30-18.00	37*. Diwedd a chyflwyno CyFAN Cymru <i>Cadeirydd: Jane Davidson, Net Zero 2035</i> Gyda: Jessie Buchanan, Rhodri Elfyn Jones a Jane Powell, CyFAN Cymru			

Croeso...

... i'r bedwaredd Gynhadledd Gwir Fwyd a Ffermio. Rydym yn llawn cyffro wrth gwrdd gyda'n gilydd mewn lle go iawn!

Wedi dweud hynny, mae argyfyngau byd-eang ac adref yn parhau – a gallent deimlo'n ddi-baid. Nid oes angen eu henwi nhw fan hyn, ond rydym yn cydnabod bod pobl, cymdeithasau, yr amgylchedd a'r blaned ei hun mewn sefyllfa difrifol ofnadwy.

Ond gallwn ni i gyd wneud rhywbeth – ac mae ysbrydoliaeth a syniadau yn y Gynhadledd hon. Felly, dewch i drafod a chynllunio, cymerwch ran mewn sesiynau rhyngweithiol a gweithdai ymarferol, ac ar ddydd Gwener, ewch i weld beth mae ffermydd a phrosiectau lleol yn ei gyflawni yn y byd go iawn. Wedyn, beth am ymuno â ni i lunio ein pumed Gynhadledd yn 2023!

Dydd Mercher

1. Sesiwn iawn: Sheila Dillon

Cadeirydd: Alicia Miller, CGFFFC a *Sustainable Food Trust*

Croeso gan Gwilym Dyfri Jones, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Wedyn, byddwn yn croesawu Sheila Dillon, newyddiadurwraig bwyd arobryn, sydd yn fwyaf adnabyddus am gyflwyno *The Food Programme* ar BBC Radio 4.

2. Hinsawdd o newid: gosod y trywydd tuag at Anthroposin llewyrchus

Cadeirydd: Dave Bavin, Cynefin

Siaradwyr: Dr Sophie Wynne Jones, Prifysgol Bangor; Siân Stacey, Tir Canol; Oliver Kynaston, *EcoTree International*; Dafydd Morris-Jones, Fferm Tŷ Mawr

Rydym yn byw yn yr Anthroposen, a nodweddir yn gyffredinol fel cyfnod o effaith negyddol aruthrol gan fodau dynol. Ond a allwn ni newid cyfeiriad, a gosod trywydd tuag at Anthroposen llewyrchus? Pa rôl allai cynhyrchu bwyd ei chwarae yn hyn o beth?

Bydd y drafodaeth banel hon yn archwilio sut mae cynhyrchu bwyd yng Nghymru yn cael ei effeithio gan newid yn yr hinsawdd, a sut y gallai helpu gyda lliniaru; rôl cynhyrchu bwyd wrth gefnogi ecosystemau iach; a sut mae meithrin perthnasoedd cryf rhwng pobl yn bwysicach nawr nag erioed.

3. Pŵer coed

Cadeirydd: Nigel Pugh, Coed Cadw

Siaradwyr: Dr Ashley Hardaker, Prifysgol Bangor; Geraint Davies, ffermwr ac aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru; Jerry Langford, Coed Cadw; Glenda Thomas, FWAG Cymru

Bydd y sesiwn hon yn trafod amaethgoedwigaeth ac yn archwilio'r potensial ar gyfer coed ar ffermydd, gan gynnwys cynigion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gyfer cyflawni'r ddau drothwy 10% i fod yn gymwys ar gyfer taliadau cyffredinol. Sut mae coed a gwrychoedd ar y fferm yn cyfrannu orau at y trothwyon cynefin lled-naturiol a gorchudd coed, a sut mae'r ddau drothwy hyn yn rhyngweithio? Sut mae coed yn cyfrannu at sero net ar y fferm? Pa wasanaethau hanfodol eraill y gallant eu darparu? Pa fath o gymorth ar y fferm sydd ei angen i leihau camgymeriadau cynnar wrth gyflwyno systemau newydd?

4. Arweinyddiaeth bwyd yn y sector cyhoeddus a'r gymuned

Cadeirydd: Fiona Taylor, Garddio Organig

Siaradwyr: Jade Phillips, Garddio Organig; Pearl Costello, Bwyd Caerdydd; Louise Denham, Bwyd Y Fro

Er mwyn adeiladu system fwyd well, ac felly cymdeithas well, mae angen i bob un ohonom gymryd rhan, boed yn wirfoddolwyr, yn weithwyr yn y sector cyhoeddus neu'n berchnogion busnes. Sut mae rhoi'r hyder a'r weledigaeth sydd eu hangen ar bobl os ydyn nhw am ddarganfod eu hasiantaeth a gweithredu? Mae gan wybodaeth dechnegol, datblygiad personol a rhwydweithio oll ran i'w chwarae. Yma byddwn yn clywed sut mae pobl yn rhannu sgiliau garddio a maeth ag eraill, ac yn dod o hyd i'w cyfraniad unigryw.

5. Cysylltu bwyd a rheilffyrdd – sut mae cymunedau'n arwain ar dwristiaeth yn y Canolbarth

Rhiannon-Jane Raftery, Creu Cymunedau sy'n Ymwybodol o'r Hinsawdd / Rhwydwaith Rheilffyrdd Cymunedol Cymru a'r Gororau

Mae twristiaeth yn ddiwydiant allweddol yng Nghymru, ond mae'n cael llawer o effeithiau negyddol ar gymdogaethau lleol. Mae twristiaeth a arweinir gan y gymuned yn cymryd agwedd wahanol, gan roi rheolaeth i gymunedau ac adeiladu cyfoeth yn lleol. Mae wedi datblygu'n dda yn yr Alban ac mae prosiect peilot yn gweithio gyda Chwmpas a'r *Scottish Social Enterprises Academy* i ddatblygu'r cysyniad yng Nghymru.

Dewch i glywed am deithio heb gar, cerdded, beicio a bwyd lleol, gan ddechrau gyda Blas ar Lein Calon Cymru, yna symud i Lein y Gororau, ac yn y pen draw Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol eraill ledled Cymru.

Twitter: @RJ_R

6. Beth yw'r sgôr ar dir comin?

Helen Barnes, Cyngorydd amaethyddol annibynnol

Wrth i'r cynllun cymorth amaethyddol ac amgylcheddol newydd yng Nghymru symud tuag at daliadau am gyflenwi Nwyddau Cyhoeddus neu Amgylcheddol, mae'r *European Forum for Nature Conservation and Pastoralism* (EFNCP) wedi bod yn datblygu

dull cerdyn sgorio i fesur canlyniadau ac o bosibl arwain at daliadau ar yr 8.5% o arwynebedd Cymru sy'n dir comin. Mewn treialon mawr, yn enwedig yn Iwerddon, dangoswyd bod cardiau sgorio yn arf gwerthfawr mewn dull integredig o reoli ar raddfa'r dirwedd ac mae'n bosibl y gall unrhyw un eu defnyddio. Mae'r cerdyn EFNCP wedi'i brofi ar amrywiaeth o diroedd comin ar draws De Cymru. Dewch i ddysgu sut mae'n gweithio.

7. Tuag at economi gylchol o gompost - mapio ffynonellau a phrosesau bio-wastraff ar gyfer compostio cynhyrchion gofal pridd

Fin Jordao, Canolfan y Dechnoleg Amgen

Mae treial ar y gweill ym Miosffer Dyfi sy'n edrych ar gau dolenni deunydd organig mewn ffyrdd diogel, hygyrch a chymdeithasol sy'n cynhyrchu cynnyrch ar gyfer cynhaliaeth pridd a thyfu bwyd, lleihau gwastraff a meithrin perthnasoedd. Gadewch i ni drafod y potensial ar gyfer sefydlu 'cylchoedd compostio' rhwng gwastraff / adnoddau bioddiraddadwy (fel rhedyn, gwlan defaid, gwastraff bwyd) yn deillio o weithrediadau domestig, masnachol a fferm a safleoedd tyfu bwyd, gan gyfrannu felly at economi gwastraff cylchol yn lleol, a hyd yn oed lefel genedlaethol.

8. Bwydo Cymru o'r tir i fyny

Cadeirydd: Sheila Dillon

Siaradwyr: Huw Richards, Regenerative Media; Patrick Holden, *Sustainable Food Trust*; Rachael Madeley-Davies, Hybu Cig Cymru; Jyoti Banerjee, North Star Transition

Gan adeiladu ar lansiad llwyddiannus adroddiad "*Feeding Britain from the Ground Up*" y *Sustainable Food Trust* ym mis Mehefin, a oedd yn cyd-daro ag ymgynghoriad strategaeth fwyd y Llywodraeth ei hun ac ymgynghoriad defnydd tir, bydd y drafodaeth

banel hon yn cynnwys amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion eraill sy'n gweithio yn y maes hwn yng Nghymru, i drafod ble rydym yn mynd nesaf. Bydd y panel yn archwilio meysydd o aliniad, gan ganolbwyntio ar leihau dryswch y cyhoedd ar faterion deiet, iechyd a chynaliadwyedd, tra'n ceisio adeiladu consensws ar ddyfodol bwyd a ffermio cynaliadwy yng Nghymru, a'r camau y bydd angen eu cymryd i gyrraedd yno.

9. Bwyd cymunedol: iechyd, cydraddoldeb a dathlu mewn cyfnodau anodd

Cadeirydd: Jo da Silva, *Open Food Network*

Siaradwyr: Andrea Sanders, Yr Ardd; Chris Cashin, a Christine Joy, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant; Gwenllian Spink, *Open Food Network*; Lowri Jenkins, Cymunedau *Eden Project*

Wrth i'r argyfwng costau byw wthio mwy o bobl i'r banciau bwyd, a allwn ddod o hyd i agwedd fwy cadarnhaol at fwyd cymunedol, gan feithrin gallu ar gyfer y dyfodol? Mae gan erddi cymunedol, cadwyni cyflenwi lleol, caffis talu-wrth-deimlo a balchder mewn bwyd lleol oll ran i'w chwarae wrth ddatblygu hyder yn ein cymunedau a sicrhau bod gan bawb fwyd da i'w fwyta. Dewch i roi eich cwestiynau i'r panel.

10. Adeiladu system hadau cynaliadwy ar gyfer ffermwyr a thyfwyr Cymru

Cadeirydd: Kate McEvoy, *Real Seeds Cyf.*

Siaradwyr: Steven Jacobs, *Organic Farmers & Growers CIC*; Nathan Richards, Fferm Troed y Rhiw; Leasa Fielding, Llywodraeth Cymru

Bydd y sesiwn hon yn archwilio i ba raddau y mae hadau sydd ar gael ar hyn o bryd yn diwallu anghenion amaethyddiaeth a garddwriaeth amaeth-ecolegol Cymru, a bydd yn edrych ar ffyrdd o adeiladu system hadau wydn ar gyfer dyfodol ansicr.

11. Rhannu'r tir a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Cadeirydd: Nigel Pugh, Coed Cadw

Siaradwyr: Shea Buckland-Jones, *WWF-UK*; Hannah Woodall, RSPB Cymru; Rachel Lewis Davies, NFU Cymru; Duncan Fisher, Ein Bwyd 1200

Trafodaeth banel ar ffermio cynaliadwy a systemau bwyd lleol yn erbyn cefndir o ansefydlogrwydd cynyddol yn yr hinsawdd.

Sut gallwn ni fod yn llai dibynnol ar fewnforion bwydydd sy'n cael eu heffeithio gan newid hinsawdd, ac ar gostau uchel porthiant da byw, gwrtait, cemegau, a thanwydd ffosil? A all y Cynllun Ffermio Cynaliadwy gydweithio â chydnerthedd cymunedol a dechrau gwrthdroi colledion bioamrywiaeth?

12. Mapio tir ar gyfer bwyd cymunedol: gweithdy ymarferol

Cadeirydd: Alison Sheffield, Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yng Nghymru

Siaradwyr: Chris Higgins, Tyfu Dyfi; Kim Graham, *Shared Assets*; Lynne Davis, *Digital Commons*; Gary Mitchell, Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yng Nghymru

Credwn fod mynediad agored a chyfathrebu data wedi'i fapio yn hollbwysig os ydym am gyfleu gwerth dyrannu tir ar gyfer bwyd cymunedol.

Byddwn yn rhannu ein hymagwedd a'r gweithgareddau rydym wedi bod yn ei wneud yn Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol trwy ein partneriaeth Mannau Gwyrdd Gwydn. Byddwn yn cyflwyno Land Explorer – y map ffynhonnell agored rydym yn ei ddefnyddio. Perllannau cymunedol yw ein safleoedd peilot. Bydd prosiect ENRaW arall, Tyfu Dyfi, yn amlinellu eu blaenoriaethau ar gyfer rhannu gwybodaeth ddaearyddol. Bydd trafodaethau a hwylusir yn: rhannu cyfleoedd posibl ar gyfer cydweithio; ystyried pa ddata

sydd fwyaf defnyddiol, ac, yn bwysicaf oll, sut ydym ni'n rhannu data wedi'i fapio i gyfleu gwerth defnyddio tir ar gyfer bwyd cymunedol.

13. GMOs newydd: risg, cyfle neu dyniad sylw?

Cadeirydd: Kate McEvoy, *Real Seeds* Cyf.

Siaradwyr: Steven Jacobs, *Organic Farmers & Growers CIC*; Liz O'Neill, *GM Freeze*; Gerald Miles, Fferm Organic Caerhys

Bydd y sesiwn hon yn archwilio sut y bydd newidiadau arfaethedig i gyfraith Lloegr yn effeithio ar gadwyn fwyd Cymru, pam ei bod yn bwysig a beth allwn ni i gyd ei wneud yn ei chylch.

14. Mae natur yn golygu busnes: sut gall ffermio er lles natur gynyddu proffidioldeb fferm a gwella'r amgylchedd

Cadeirydd: Rhys Evans, Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur (NFFN) Cymru

Siaradwyr: Hywel Morgan, NFFN Cymru, Esgairllaethdy, Myddfai; Sam Kenyon, NFFN Cymru, Fferm Glanllyn, Llanelwy; Huw Foulkes, Fferm Pentrefelin, Llandyrnog

Mae 'na ddywediad cyffredin yn y diwydiant amaeth - "ni all ffermwyr fod yn wyrdd os ydynt yn y coch". Ond â yw hyn yn wir mewn gwirionedd? Ymunwch â'n panel o dri o ffermwyr y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur i glywed sut mae eu dulliau ffermio adfywiol o gynhyrchu bwyd yn helpu i wella proffidioldeb eu busnesau law yn llaw â gwella'r amgylchedd. Efallai fod hi'n amser herio'r hen ddywediad a chynnig un newydd - "mae'n rhaid i ffermwyr fod yn wyrdd er mwyn bod yn y du".

Twitter: Sam - @Sam_Glanllyn; Huw - @TheRegenerativ2

15. Dim amser i'w golli: ymgysylltu â'r llywodraeth

Camilla Saunders, Karen Plant, Caroline Eayrs ac Angie Zelter, Bwyd Cynaliadwy Tref-y-Clawdd

Gweithdy rhyngweithiol dan arweiniad Bwyd Cynaliadwy Tref-y-Clawdd.

Mae gan Gymru ddeddfwriaeth bresennol sy'n gofyn am weithredu ar golli bioamrywiaeth a newid yn yr hinsawdd, ond nid yw'n cael ei wneud ac mae amser yn mynd yn brin. Mae soia yn dal i gael ei fewnforio ar gyfer porthiant anifeiliaid, mae ffermwyr dan bwysau i werthu tir amaethyddol ar gyfer gwrthbwyso carbon, ac mae ceisiadau am unedau dofednod dwys yn parhau i gael eu caniatáu. Beth allwn ni ei wneud i sicrhau bod y llywodraeth yn cyflawni ei chyfrifoldebau byd-eang?

Bydd y sesiwn yn cynnwys trafodaeth ar ddigwyddiad sydd wedi'i gynllunio fis Chwefror nesaf yn y Senedd.

16. Diwylliant bwyd Cymreig yfory

Gyda Carwyn Graves, awdur a Patrick Holden, *Sustainable Food Trust*

Yn y sgwrs eang hon, mae Carwyn a Patrick yn trafod dyfodol diwylliant bwyd Cymru. Fel beth allai edrych? Pwy fydd yn berchen arno? A oes gweledigaeth ar gyfer ei ddyfodol? Beth mae ei hanes yn ychwanegu at y drafodaeth? Sut y gall hwn bontio'r rhaniadau yng nghymdeithas ehangach Cymru?

17. Ffermio ac adrodd straeon ar gyfer dyfodol dynoliaeth

Gyda Matt Swarbrick, Fferm Henbant a Huw Richards, Regenerative Media

Mae dwy rôl sy'n hanfodol i adeiladu byd mwy prydferth: storïwr a ffermwr. Edrychwn ar sut y gellir cyfuno'r rolau hyn ag effaith bwerus.

Gellir gwneud ffermio fel ei fod yn cynhyrchu bwyd gwyh, elw ariannol, yn adeiladu pridd, bioamrywiaeth, cyfalaf cymdeithasol ac yn bwysicaf oll yn bleserus. Mae'n llinell waelod chwe phwynt. Wrth wneud hynny gallwn ddatrys llawer o broblemau'r byd. Gall adrodd straeon helpu pobl i weld gwir werth ein hecosystemau; gall ein helpu i sylweddoli bod gan bob un ohonom ran i'w chwarae a theimlo ein bod yn gallu gwneud hynny.

Matt: Twitter - @HenbantMatt; Instagram https://www.instagram.com/henbant_perma_culture/; YouTube https://www.youtube.com/channel/UCBL_3BlTovSMQJgCHVKiLw

Huw: Instagram <https://www.instagram.com/huwsgarden/>; YouTube <https://www.youtube.com/c/HuwRichards>

18. Lansiad ffilm fer RSPB Cymru 'Ffermio gyda natur' a sesiwn "Cwestiwn ac Ateb"

Mae gan ffermio ran hanfodol i'w chwarae wrth helpu i fynd i'r afael â'r argyfyngau amgylcheddol sy'n ein hwynebu. Mae *Ffermio gyda natur* yn archwilio arferion a rhagolygon tri ffermwr sydd â chysylltiadau dwfn â thirweddau gwahanol iawn yng Nghymru, gan drafod eu profiad uniongyrchol o newidiadau cadarnhaol a wnaed i fyd natur, a'u gobeithion am yr hyn y gellid ei gyflawni yn y dyfodol. Mae hyn wedi'i osod yn erbyn cefndir o ddelweddau syfrdanol, gan gludo'r gwylwr o arfordir Sir Benfro i ucheldiroedd Powys.

[Bydd angen archebu tocyn trwy RSPB Cymru.](#)

Nos Fercher

19. Swper gydag adloniant gan Cynefin, Camilla Saunders a Sam Robinson

Cynefin: Syniad Owen Shiers, un o frodorion Dyffryn Clettwr yw Cynefin. Wedi'i gyfareddu gan gerddoriaeth a hanes, mae'r prosiect yn

rhoi llais i dreftadaeth gyfoethog Ceredigion sydd eisoes wedi mynd yn angof. Wedi'i gyfareddu gan gerddoriaeth werin a hanes, mae Owen yn rhoi llais cyfoes i'r straeon a chaneuon hynafol yma.

Mae Camilla yn gyfansoddwr / fyrfyfyriwr sy'n byw yn Sir Faesyfed. Trwy gerddoriaeth mae hi'n ceisio atgoffa bodau dynol eraill o hawliau infertebratau, a'i *alter ego* yw'r cocrocsien (*cockroach*). Bydd yn canu o'i [Bug Lover's Song Book](#) newydd.

Mae Sam Robinson yn fugail a bardd o Fro Ddyfi. Mae o hefyd yn gwneud seidr ac yn chwarae'r bodhrán.

Dydd Iau

20. Sesiwn lawr: Alun Elidyr a Jon Gower yn sgwrsio

Mae Alun Elidyr yn ffermio yn Rhydymain ger Dolgellau ac yn cyd-gyflwyno *Ffermio* ar S4C, ac mae e hefyd wedi bod yn actor.

Mae Jon Gower yn ddarlledwr ac yn awdur sydd wedi sgrifennu 40 o lyfrau hyd yn hyn. Mae'n golofnydd bwyd i Taste/Blas.

Ymunwch â'r ddau am awr o sgwrs am ddyfodol bwyd a ffermio mewn cenedl fach.

21. Sut gall pryduau ysgol a datblygu bwydlen ar draws y sector cyhoeddus fod yn sbardun i adfywio economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol lleol?

Cadeirydd: Alex Cook, Bwyd Sir Gâr, Partneriaeth Bwyd Cynaliadwy Sir Gâr

Siaradwyr: Alison Sheffield, Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yng Nghymru; Edward Morgan, Castell Howell; Cyng. Ann Davies, Cyngor Sir Gâr.

Mae Gorllewin Cymru mewn sefyllfa unigryw i weithredu. Mae ymchwil academiaidd, astudiaethau peilot a phrosiectau diweddar a gefnogir gan ystod eang o arbenigedd yn y gadwyn gyflenwi, yn gosod y sylfeini ar gyfer

newid system fwyd uchelgeisiol trwy ddull lle a phartner, a ategir gan yrwyd polisi allweddol ar lefel leol a chenedlaethol.

Byddwn ni'n trafod sut y gall ailgynllunio bwydlenni'r sector cyhoeddus ar y cyd fod yn hwylusydd i ddatgloi'r heriau o gwmpas: adfywio economaidd gwledig drwy gaffael cynnyrch cadwyn gyflenwi fer; cynaliadwyedd yr amgylchedd drwy fwy o arddwriaeth adfywiol; ac yn cefnogi ffermio cymysg, addysg bwyd / llythrennedd mewn lleoliad ysgol, a maeth ac iechyd cymunedol.

22. Meddylfryd systemau mewn addysg a'r llywodraeth

Cadeirydd: Richard Dunne, Yr Athrofa Cytgord

Siaradwyr: Heini Thomas, Ysgol y Dderi; Julia Lim, Hwb Ymaddas Llambod; Sarah Hetherington, Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae gan fwyd y pŵer i dynnu ynghyd sawl agwedd ar fywyd, o arddio a bywyd gwyllt i goginio ac iechyd, yn ogystal ag entrepreneuriaeth a chreadigrwyd. Mae'n ffordd ddelfrydol o gyflwyno meddylfryd systemau i ysgolion, lle mae'r cwricwlwm newydd yn gyfle newydd cyffrous i ailystyried addysg, yn ogystal â phrifysgolion a'r llywodraeth. Yn yr un modd, mae meddylfryd systemau yn hanfodol os ydym am ddatrys y problemau bwyd sy'n ein hwynebu nawr. Dewch i glywed gan rai prosiectau ysbrydoledig a chyfrannu eich profiadau eich hun.

23. Graen gwych: Hen Gymro – gwenith Cymreig, stori tyfu lleol

Cadeirydd: Steven Jacobs, *Organic Farmers & Growers CIC*

Siaradwyr: Anne Parry, Felin Ganol; Andrew Neagle, Popty Crefft Anuna; Rob Penn, awdur, fforestwr, pobydd; Emma Williams, Y Felin; Hefin Evans, ffermwr

Mae Hen Gymro yn wenith cynhenid yn Ne-orllewin Cymru a oroesodd mewn llafuriaeth hyd at y 1920au - yn hirach nag unrhyw gwenith cynhenid Prydeinig arall.

Yn y sesiwn hon, cawn glywed sut mae'r gwenith gwych yma wedi dod yn ôl yn fyw ac yn ôl i felinau a phobol ar hyd a lled Cymru. Bydd y siaradwyr yn adrodd am eu rhan eu hunain yn stori Hen Gymro ac yn sôn am ba mor dda mae'n tyfu, cael ei felino a phobi, a bydd yn cynnwys canlyniadau diweddar iawn ymchwil gan IBERS yn edrych ar gyfansoddiad maeth yr hen wenith Cymreig hwn. Mae gwledd o'n blaenau ni.

24. Gweithdy prosesu hadau

Gyda: Sue Stickland, Hwb Hadau Cymru, a Kate McEvoy, *Real Seeds Cyf*.

Arddangosiad o atebion cost isel i dyrnu a glanhau hadau mewn cynhyrchu hadau masnachol ar raddfa fach.

25. Homoeopathy at Wellie Level - defnyddio homeopathi ar y fferm

Gyda: Peter Gregory a Jane Spruell, milfeddygon homeopathi

Mae *Homoeopathy at Wellie Level*, neu *HAWL*, yn sefydliad bach nid-er-elw sy'n dysgu ffermwyr y defnydd cyfrifol o homeopathi ar y fferm. Mae ffermwyr sydd wedi dilyn y cwrs wedi sylwi ar lai o filiau milfeddyg, defnydd o wrthfotigau ac anifeiliaid iachach. Bydd Peter Gregory a Jane Spruell, milfeddygon ac athrawon homeopathig yn cyflwyno *HAWL* a hefyd yn tynnu sylw at y manteision i ffermwyr, eu hanifeiliaid a'r gadwyn fwyd.

26. Peiriannau gwerthu bwyd ffres fel dull o ddsbarthu

Gyda: Abi Marriott a Rich Miles Tuck, Menter Dosbarthu Bwyd Cymunedol Cymru, PLANED

Rydym yn croesawu cynrychiolwyr i glywed am brosiectau bwyd PLANED a thrafod gwerthu bwyd ffres fel dull o ddsbarthu. Byddwch yn dod i wybod am ein peiriant gwerthu cyntaf, gan gynnwys y broses gaffael, heriau logistaidd a chyfleoedd cynhyrchwyr. Byddwch yn cael cwrdd ag un o'n cyflenwyr a chlywed am y buddion i'w busnes. Byddwn wedyn yn rhannu ychydig o fanylion am ein camau nesaf yn rhanbarthol ac ar y cynlluniau ar gyfer ein peiriannau nesaf wrth agor yr ystafell i holi a barn am ddyfodol peiriannau gwerthu bwyd ffres yng Nghymru.

27. Dull paramaethu at ddyfodol cynhyrchu bwyd Cymreig

Gyda: Peter Stopp

Nid ffermwr na thyddynwr mo Peter ond Cadeirydd Paramaethu Cymru, cangen Gymreig *Permaculture Association (GB)*. Bydd y sesiwn fer hon yn rhoi cyflwyniad byr i'r tair prif elfen o gynllunio paramaethu, Wedyn, mae'n archwilio dull integredig o fynd i'r afael â'r pwysau niferus, nid yn unig ar ffermio neu arddwriaeth ond pob agwedd ar ein bywydau, gydag amser ar gyfer ymatebion a thrafodaeth ar y rhwystrau a'r cyfleoedd posibl a allai gyflwyno eu hunain. A all cyflenwadau bwyd lleol ffres ar raddfa fach fod yn ateb?

Twitter: @Paramaethu

<https://wales.permaculture.org.uk>

28. Pŵer partneriaethau bwyd lleol

Cadeirydd: Jessie Buchanan, Gyda'n Gilydd dros Newid

Siaradwyr: Andy Rowland, Biosffer Dyfi; Augusta Lewis, Bwyd Sir Gâr; Simon Wright, Wright's Llanarthne a Chanolfan Tir Glas, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Mae gweithio mewn lle penodol yn gyfle i lunio gwahanol sectorau ynghyd ac i harneisio brwdfrydedd lleol. Ond pa mor eang ddylai'r

partneriaethau hyn fod, a beth allan nhw ei gyflawni? Byddwn yn clywed gan dri dull gwahanol a gofyn beth sy'n gweithio, a beth sydd ddim. Byddwn ni hefyd yn ystyried sut i rannu'r dysgu rhwng partneriaethau lleol ar draws Cymru, a chysylltu gweithredu ymarferol â pholisi cenedlaethol.

29. Rôl da byw wedi'i reoli'n dda mewn ecosystemau iach

Cadeirydd: Karen Fisher, *Innovative Farmers*

Gyda: Kate Bradshaw, ffermwraig a *Pasture for Life*; Christopher Price, *Rare Breeds Survival Trust*; Andrew Rees, ffermwr

Bydd y sesiwn hon yn ymdrin â'r gwaith o reoli tir; iechyd pridd; pori gyda llwfr amrywiol; osgoi dibyniaeth ar fewnbynnau allanol fel gwrtaith; cynnal iechyd da byw; a'r dewis o fridiau priodol, gan gydnabod gwerth da byw cynhenid Cymru. Byddwn ni'n disgrifio busnesau fferm lwyddiannus sy'n ymarfer yr egwyddorion hyn ac yn gwireddu'r hyfywedd economaidd, ac felly'r gwydnwch, y mae'r gwerthoedd hyn yn cynnig busnesau fferm yng Nghymru.

30. Pam mae CSA yn gweithio dros bobl, planed a chynhyrchwyr

Cadeirydd: Neil Hickson, *CSA Network UK*

Siaradwyr: Tom O'Kane, Cae Tân CSA; Gerald Miles, COCA CSA; Abbi Mason, *Big Meadow CSA*; Ruth Evans, *Big Meadow CSA* a Chae Felin CSA

Mae ffermio CSA yn cefnogi pobl, planed a chynhyrchydd i ymateb i'r heriau presennol o ansicrwydd bwyd, ymddatodiad cymunedol, newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Yn y DU, mae CSA yn gweithredu drwy amrywiaeth enfawr o fodolau ac mewn ystod eang o gyd-destunau. Bydd y sesiwn hon yn archwilio gwahanol lwybrau gan y ffermwr traddodiadol a drowyd yn eiriolwr CSA Gerald Miles, un a sefydlodd CSA Cae Tân, a dau o

CSAs newydd sydd wedi dod allan o Gae Tân, un ar fferm organig fawr ac un ar dir y GIG yn Ysbyty Treforys yn Abertawe.

31. Gweithdy: Profi dwysedd maeth bwyd

Gyda: Matthew Adams ac Elizabeth Westaway, *Growing Real Food for Nutrition CIC (Grffn)*

Gweledigaeth Grffn ar gyfer y byd yw lle mae'r holl fwyd yn cael ei dyfu am ei rinweddau maethol gan ddefnyddio arferion adfywiol, ac sydd ar gael i bawb.

Darganfyddwch sut i fesur dwysedd maethol bwyd a chymryd rhan mewn sesiwn profi *Brix* a blasu sy'n cymharu llysiau a dyfir yn lleol yn erbyn y rhai a brynwyd.

Twitter: @Grffn_CIC; www.grffn.org

32. Gwrthddywediad ac argyfwng yn y system fwyd – polisi Cymreig a'r Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Cadeirydd: Dr. Angelina Sanderson Bellamy, Prifysgol Gorllewin Lloegr

Siaradwyr: Katie Palmer, Synnwyr Bwyd Cymru; Rhys Evans, NFFN Cymru; Jess McQuade, WWF-Cymru

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau, ei gilydd ac i atal problemau parhaus, e.e. tlodi, anghydraddoldebau iechyd, newid hinsawdd. Bydd panel o arbenigwyr, a gynullir gan Gynghrair Polisi Bwyd Cymru, yn ystyried a yw egwyddorion atal, integreiddio, cydweithredu, ymwneud, cydbwysu anghenion tymor byr a thymor hir, yn cael eu hadlewyrchu mewn polisi ar draws system fwyd Cymru, a beth yw'r cyfleoedd i wneud hynny. Mae'r sesiwn yn rhoi cyfle i archwilio'r methiannau presennol yn ein system fwyd a'r cyfleoedd i gyd-greu

gweledigaeth gyfannol cyn i'r Bil Bwyd (Cymru) drafft gael ei gyflwyno i'r Senedd.

33. Iechyd pridd ar gyfer ffermwyr: carbon a thu hwnt

Cadeirydd: Annie Buckle, Prifysgol Caerloyw

Siaradwyr: Dr Non Williams, Cyswllt Ffermio; Dr Felicity Crotty, Prifysgol Amaethyddol Frenhinol; Hal Drysdale, ffermwr a Grŵp *Wye Soil*

Gwyddoniaeth bridd yn cyfarfod ffermio da byw. Yn ogystal â nifer o wasanaethau ecosystem megis rheoliadau hinsawdd, atafaeliad carbon, puredigaeth dŵr a chylchredu maetholion, mae priddoedd yn cynnwys cynefinoedd cymhleth iawn ar gyfer cyfoeth o fioamrywiaeth. Byddwn yn trafod gwaith arbrol cyfredol o ffermydd da byw ar draws Cymru mewn perthynas â adeiladu carbon mewn pridd a chyfoethogi bioamrywiaeth. Mae gweithio yn uniongyrchol gyda phartneriaid ffermio ar gyfer cyd-ddylunio nodau ac amcanion ymchwil yn sicrhau fod y canlyniadau yn gymwys yn uniongyrchol i anghenion ffermio lleol. Mae hyn yn gyfeiriad newydd, cyffrous ble y bydd y cyfoeth o wybodaeth sydd o fewn y cymunedau amaethyddol a gwyddonol yn uno i lenwi'r bwlch rhwng ymchwil arbrol a gweithrediad ymarferol.

34. Oes dyfodol i fwyta allan?

Cadeirydd: Simon Wright, Wright's Llanarthne a Chanolfan Tir Glas, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Siaradwyr: Cerys Furlong, Bwyty Milkwood, tafarndai The Lansdowne a The Grange, Caerdydd; Dan Warder, Top Joe's Pizzerias, Arberth a Dinbych y Pysgod; Deri Reed, The Warren Caerfyrddin a Chegin Hedyn Cegin Cymunedol a Chantîn, Caerfyrddin

Mae'r diwydiant bwytai yn wynebu heriau nas welwyd o'r blaen. Mae'r rhai a ddaeth drwy'r pandemig yn cael eu beichio'n eang gyda dyled ac erbyn hyn yn wynebu cyd-destun

economaidd o gostau sy'n codi'n serth, prinder llafur a gostyngiad tebygol yn y galw gan gwsmeriaid o ganlyniad i'r argyfwng costau byw a dirwasgiad a ragwelwyd. Yn y sesiwn hon, mae rhai ffigyrau blaenllaw yn y sector yn trafod beth mae hyn yn ei olygu i ddyfodol bwyta allan ac archwilio rôl bwytai mewn byd lle mae'r system fwyd mewn argyfwng ar sawl ffrynt.

Twitter: Simon - @Wrightsfood; Cerys - @cerysfurlong; Dan - @topjoespizza; Deri - @theethicalchef

35. Dathlu manteision mynediad tir ehangach

Cadeirydd: Gary Mitchell, Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yng Nghymru

Siaradwyr: Mark Walton, *Shared Assets*; Duncan Fisher, Ein Bwyd 1200; Lucie Taylor, Gwasanaeth Cynghori ar Dir Cymunedol; Chris Blake, *The Green Valleys*

Mae'r rhwystrau i fynediad tir ehangach wedi cael eu trafod yn aml. Mae'r sesiwn hon yn archwilio manteision mynediad tir ehangach. A all ehangu mynediad gynnal cadwyni cyflenwi lleol, pobl a chymunedau, a natur?

Dydd Gwener: teithiau maes

Mae'r gynhadledd yn cloi gydag ymweliadau maes i ffermydd a phrosiectau lleol. Mae prosiect cadwraeth Fferm Denmarc, Gwinllan Llaethliw, a ffermydd organig Treberfedd a Bwlchwernen Fawr i gyd yn cynnig ymweliadau. Mae opsiwn hefyd am daith y campws, gan gynnwys yr adeiladau hanesyddol a chasgliadau arbennig. Maent i gyd yn rhad ac am ddim ond mae angen archebu lle a threfnu cludiant (gan rannu ceir).

D.S. Trefnir y teithiau i gyd gan sefydliadau eraill: ni fydd Cynhadledd Gwir Fwyd a Ffermio Cymru'n gyfrifol am yr ymweliadau. Cofiwch wisgo'n addas, a byddwch yn barod am fŵd, glaw, oerni – a haul!

Mae'r manylion i gyd ar ein gwefan: <https://wrffc.wales/ymweliadau-maes-field-visits-2022/>.

36. Sut mae asesiadau cynaliadwyedd yn helpu ffermwyr, cynghorwyr a'r llywodraeth

Siaradwyr: Sophie Wynne-Jones, Prifysgol Bangor; Richard Kipling a May Wheeler, *Sustainable Food Trust*; Bridie Whittle, *Wye & Usk Foundation*

I ba raddau y gall cynghorwyr ffermydd roi cymorth ac arweiniad i fesuro effaith a datblygu dealltwriaeth o'r opsiynau ar gyfer gwahanol systemau ffermio? Sut gall llywodraethau lleol a chenedlaethol ddatblygu cynlluniau ffermio a rheoli tir newydd i gynorthwyo ffermwyr i wneud newidiadau?

37. Diwedd y Gynhadledd a chyflwyno CyFAN Cymru

Cadeirydd: Jane Davidson, Cadeirydd Cymru Sero Net 2035 a Dirprwy Is-Ganghellor Emeritws, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Siaradwyr: Jessie Buchanan, Rhodri Elfyn Jones a Jane Powell, CyFAN Cymru

Amser i ddweud ffarwelio a helo! Bydd Jane Davidson yn rhoi ei hymateb i CGFFFC22, cyn cyflwyno CyFAN Cymru: Cymuned dros Fwyd, Amaeth a Natur. Dyma ein helusen newydd arfaethedig a fydd yn goruchwyllo Cynadleddau'r dyfodol. Dysgwch fwy gyda dau o'r Ymddiriedolwyr Sylfaenol a'r Prif Swyddog Gweithredol.